# EIN BLWYDDYN WYLLT 2023/24

## Adroddiad effaith



MORGI © LINDA PITKIN/2020VISION

Ymddiriedolaeth Natur
**Gogledd Cymru**
**North Wales**
Wildlife Trust



TEGEIRIAN Y WENYNEN © NEIL ALDRIDGE

# Cynnwys


3 Ein blwyddyn mewn niferoedd

4 Croeso

5 Dod â Natur yn Ôl

6 Bydd natur mewn adferiad

10 Gweithredu ystyrlon

12 Atebion seiliedig ar natur

14 Adolygiad ariannol

15 Edrych ymlaen

16 Ein Partneriaid Naturiol

17 Rhoddion mewn Ewyllysiau


Ymddiriedolaeth Natur **Gogledd Cymru**
**North Wales** Wildlife Trust


northwaleswildlifetrust.org.uk

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru / North Wales Wildlife Trust
Llys Garth, Ffordd Garth / Garth Road
Bangor, Gwynedd, LL57 2RT

01248 351541
info@northwaleswildlifetrust.org.uk



Rhif Cofrestru'r Elusen / Registered Charity No. 230772

# Ein blwyddyn mewn niferoedd

**9,977**
o aelodau

**28,547**
o oriau o wirfoddoli

**286** o ddigwyddiadau lleol, teithiau cerdded a sgyrsiau wedi'u trefnu gan staff a gwirfoddolwyr, yn cyrraedd **3,665** o bobl

Ymgysylltu gyda
**55** o grwpiau ieuenctid,
**560** o bobl ifanc,
**121** o ysgolion,
**3,041** o ddisgyblion,
**19** o golegau/ prifysgolion
a **238** o fyfyrwyr

**17,000**
o danysgrifwyr i'n e-gylchlythyr

**50** o weithwyr cyfwerth ag amser llawn

**126** o dirfeddiannwyr wedi derbyn cyngor ynglŷn â'u tirfeddiannaeth eu hunain

**951** o hectarau o dir ar draws **36** o safleoedd wedi cael eu perchenogi a'u rheoli ar gyfer pobl a bywyd gwyllt

# Croeso

Erbyn i'r adroddiad hwn gael ei argraffu, bydd pedwerydd Uwchgynhadledd Bioamrywiaeth y Byd wedi cael ei chynnal ochr yn ochr â Chynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd, lle bydd cynrychiolwyr wedi ystyried pynciau fel 'Gwneud Iawn am Ddifrod Newid Hinsawdd', 'Ailadeiladu Ymddiriedaeth ac Adfer Gobaith' a 'Systemau Bwyd a Chemegau'. Mae'r holl faterion hyn yn atseinio ar lefel leol, i gyd yn cael effaith ar fywyd gwyllt, ac mae pob un yn ymwneud â gwaith Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru drwy ein strategaeth Dod â Natur yn Ôl, sy'n ein helpu i feddwl yn fyd-eang a gweithredu'n lleol.

Yn ganolog i'n gwaith mae adfywio'r berthynas sydd gan bobl â natur, oherwydd os yw natur yn bwysig i bobl, bydd yn cael ei ystyried mewn penderfyniadau unigol a phenderfyniadau cymdeithasol – p'un a yw hynny'n ymwneud â sut mae tir fferm yn cael ei reoli; dewisiadau rydym ni'n eu gwneud dros ble rydym ni'n prynu ein bwyd; sut rydym ni'n teithio; neu yn syml sut rydym ni'n dewis treulio ein hamser gwerthfawr. Rydym wedi cyrraedd pwynt lle mae angen newid systemig - ffyrdd newydd o weithio, creu partneriaethau newydd a gweithio'n galed i gefnogi eraill i helpu adfer natur.

Mae pobl felly yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn - a neb yn fwy felly na'r rhai sy'n ein cefnogi ni'n uniongyrchol. Mae ein niferoedd aelodaeth yn iach; rydym yn denu nifer uchel o wirfoddolwyr; rydym yn cael ein cefnogi gan amrywiaeth eang o gyllidwyr a phartneriaid; ac mae Rhoddion mewn Ewyllysiau yn cynrychioli ffrwd incwm hanfodol yr ydym yn ei throi'n gamau gweithredu uniongyrchol ar gyfer bywyd gwyllt. Diolch am yr ymddiriedaeth rydych chi'n ei rhoi ynom ni.



Frances Cattanach
*Prif Swyddog Gweithredol*



Howard Davies
*Cadeirydd*

# Dod â Natur yn Ôl

Ein **gweledigaeth** yw byd naturiol ffyniannus, gyda bywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol yn chwarae rhan werthfawr wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, a phobl wedi'u hysbrydoli a'u grymuso i weithredu dros fyd natur.

Ein **diben** yw dod â bywyd gwyllt yn ôl, grymuso pobl i weithredu dros fyd natur, a chreu cymdeithas lle mae natur o bwys.

Mae ein **strategaeth** a'i **dri nod** yn nodi'r hyn rydym yn credu sydd angen digwydd erbyn 2030 er mwyn gwireddu ein gweledigaeth tymor hwy ar gyfer adferiad natur.





## NOD 1

**Mae byd natur yng Ngogledd Cymru yn adfer,** gyda bywyd gwyllt toreithiog ac amrywiol a phrosesau naturiol yn creu tir a môr gwylltach lle mae pobl a natur yn ffynnu.



## NOD 2

**Mae pobl yng Ngogledd Cymru yn gweithredu dros fyd natur** a'r hinsawdd, gan arwain at well penderfyniadau ar gyfer yr amgylchedd.



## NOD 3

**Mae byd natur yn chwarae rhan ganolog, werthfawr** wrth helpu i fynd i'r afael â phroblemau lleol a byd-eang.

**NOD 1**

# Bydd natur mewn adferiad

Mae 17% o rywogaethau yng Nghymru yn wynebu difodiant - ac mae dyfodol bywyd gwyllt a fu unwaith yn gyffredin yn ansicr.

Mae wedi dod yn amlwg nad yw diogelu'r hyn sydd gennym ni ar ôl yn ddigon bellach. Mae angen i ni greu gofod newydd i fyd natur drwy gysylltu cynefinoedd, adfer tirweddau ac ailgyflwyno rhywogaethau 'allweddol'.

Ein nod ni yw i o leiaf 30% o dir Cymru gael ei ddiogelu, ei gysylltu a'i reoli'n gadarnhaol ar gyfer byd natur. Ein nod ni ar gyfer adferiad ein moroedd yw ceisio dull sy'n seiliedig ar ecosystem i feithrin gwydnwch yn erbyn pwysau cynyddol. Dim ond Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n adfer fydd yn rhan o'r targed o 30%.



BRYN IFAN © DILYS THOMPSON



AFANC © NICK UPTON

**NATUR MEWN NIFEROEDD**

- Gosodwyd **150 o flychau gwenoliaid du** mewn trefi a phentrefi ar draws gogledd-orllewin Cymru
- Gofalwyd am **25,000 o goed** yn ein meithrinfa goed Aberduna
- Fe wnaeth y nifer uchaf erioed, **50 pâr o gwybedog brith** fridio'n llwyddiannus yng Ngwarchodfa Natur Coed Crafnant
- Mwy na **115km o lan yr afon** wedi'i drin i reoli a diwreiddio ffromlys chwarennog a llysiau'r dial





GWYBEDOG BRITH © RICHARD STEEL / 2020VISION

## Tyfu o hyd at '30 erbyn 30'

Fe wnaethom ddechrau gweithio ar gynyddu ein hymdrechion i gefnogi adferiad natur a helpu i gyrraedd targed y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang o reoli 30% o dir yn effeithiol ar gyfer adferiad natur erbyn 2030. Gan gydnabod bod angen i ni weithio'n agosach gyda chyrff amgylcheddol eraill, fe wnaethom gychwyn ymdrech i wella cydgysylltu, ac mae grŵp o sefydliadau o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn creu darlun ar y cyd o'n cyfraniadau presennol at adferiad natur yng Ngogledd Cymru.

Yn y cyfamser, fe wnaethom barhau i neilltuo adnoddau i'n Hardaloedd Tirwedd Byw ein hunain. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd:

- Plannu gwrychoedd a chlirio rhododendron ochr yn ochr ag Action Asylum yn ein Tirwedd Byw Alun & Chwiler
- Rheoli rhannau o dir CEF Berwyn ar Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam er budd glöynnod byw gwibwyr brith a rhywogaethau eraill, mewn partneriaeth ag ARC a Chadwraeth Glöynnod Byw Cymru
- Cefnogi creu gweledigaeth gymunedol ar gyfer dalgylch afon Conwy, gan geisio rhoi pobl wrth wraidd gwneud penderfyniadau mwy cynhwysol am eu dŵr croyw
- Sicrhau cyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Sefydliad Esmée Fairbairn i ddechrau prosiect 7 mlynedd hynod uchelgeisiol i ddiogelu a gwella Corsydd Ynys Môn

## Bryn Ifan

Trwy affaieliad o Bryn Ifan (gyda diolch enfawr i roddwyr unigol rhyfeddol o hael ), fe wnaethom gymryd ein camau cyntaf fel partner yn Rhaglen Adfer Coedwig Law yr Iwerydd: ymrwymiad hirdymor i atebion seiliedig ar natur gan Aviva. Mae'r safle ehangach yn gartref i löynnod byw brith y gors, ystlumod pedol lleiaf a rhywogaethau prin eraill , ac mae hefyd yn ein galluogi i weithio gyda phobl leol i ystyried ei ddyfodol ffermio yn wyneb polisi amaethyddol sy'n newid.

## Gweithredu dros ein moroedd a'n harfordir

Rydym yn parhau i weithio ochr yn ochr â datblygwyr i dylanwadu ar gynlluniau ynni llanw ar raddfa fawr a phrosiectau gwynt ar y môr, tra bod tîm o wirfoddolwyr wedi ein helpu i fonitro ein glannau gan ddefnyddio methodoleg 'Shoresearch' yr Ymddiriedolaethau Natur. Daeth morwellt, siarcod, a morgathod yn rhywogaethau ffocws allweddol ar gyfer cefnogi pobl ifanc a chymunedau i ymgysylltu â'u hamgylchedd morol lleol, gyda 'Prosiect SIARC' (yr ydym ni'n bartner cyflenwi allweddol arno) yn derbyn gwobr Prosiect y Flwyddyn Cymru yng Ngwobrau'r Loteri Genedlaethol yn dilyn pleidlais gyhoeddus.



## Gwarchodfeydd natur

Mae ein gwarchodfeydd natur ein hunain yn parhau i fod yn rhai o'r safleoedd pwysicaf ar gyfer bywyd gwyllt yng Ngogledd Cymru. Ymhlith yr uchafbwyntiau penodol roedd:

- Chwarel Marford yn cadarnhau ei bwysigrwydd ar gyfer infertebratau, gydag arolygon yn datgelu dwy rywogaeth newydd na chofnodwyd erioed yng Nghymru o'r blaen
- Record o 9,546 o degeirian llydanwyrdd yn cael eu cofnodi yng Nghaeau Tan-y-bwlch yn ystod yr arolwg blynyddol
- Dechrau cylch prysgoedio 20 mlynedd yng Nghoed y Felin a gweld gwelliant deg gwaith (di-gysylltiad) yn niferoedd penigau'r porfeydd arbennig y safle ers 2022
- Wyth pwll dros dro newydd yn cael eu creu a chypreswydd yn cael ei disodli gan blannu gwrych brodorol newydd yn Chwarel y Mwynglawdd
- Gweld 2 grugiar ddu gwrywaidd yn arddangos a 4 benywaidd yn hedfan yng Ngors Maen Llwyd
- Cofeb i orffennol Gwaith Powdwr fel Gwaith Ffrwydron Cooke's yn cael ei ddadorchuddio gan yr artist Howard Bowcott a'r AS Mabon ap Gwynfor, gyda'r warchodfa hefyd i'w gweld mewn dau ddarllediad o BBC *Springwatch*





PENIGAN Y PORFEYDD © VAUGHN MATTHEWS



GRUGIAR DDU © MARK HAMBLIN 2020VISION



TWMPOT © PAUL NAYLOR

NOD 2

# Gweithredu ystyrlon

Heb bŵer pobl, mae'r frwydr i warchod byd natur a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yn ymddangos yn dasg amhosibl.

Mae gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru gylch gwaith clir i ymgysylltu a grymuso pobl o bob oedran, cefndir a gallu i gynyddu rhengoedd y rhai sy'n barod i weithredu a sefyll dros natur, neu ddim ond i ailymgysylltu â llefydd gwyllt a mannau gwyrdd a'u deall.

Drwy gynyddu nifer y bobl sy'n gallu codi eu llais a gweithredu dros fywyd gwyllt, ac amrywio'r gymysgedd o unigolion sy'n camu i'n sector ni fel staff, aelodau neu ymgyrchwyr, bydd ein llais yn uwch ac yn ymestyn ymhellach nag erioed o'r blaen.



**NATUR MEWN NIFEROEDD**

Ein postiadau wedi cyrraedd dros **3 miliwn** o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol

**2,224 o bobl** yng Ngogledd Cymru wedi cofrestru ar gyfer 30 Diwrnod Gwyllt, ymgyrch ymgysylltu cenedlaethol mwyaf yr Ymddiriedolaeth Natur

**28,546 o oriau** wedi'i gyfrannu gan ein gwirfoddolwyr anhygoel – cynnydd o 19% ar ffigurau y llynedd!

Fe wnaethom ymgysylltu â **55 o grwpiau ieuenctid** ac **121 o ysgolion**



## Cefnogi cymunedau

Parhaodd ein prosiect 'Natur drws Nesaf' i brofi bod presenoldeb hirdymor mewn cymunedau bach yn allweddol i feithrin ymdeimlad o berchnogaeth leol a gosod y sylfeini ar gyfer trefnu cymunedol – dysgu yr ydym ni bellach yn ei wreiddio ar draws ein gwaith a, gobeithio, ysbrydoli nifer fwy o gamau gweithredu hirdymor ar gyfer bywyd gwyllt. Yn y cyfamser, fe wnaethom ni ddechrau partneriaeth newydd gyda Chanolfan Addysg y Bont, ysgol anghenion arbennig yn Llangefni, lle byddwn yn treulio'r ddwy flynedd nesaf yn gwella eu tiroedd ar gyfer natur a dysgu yn yr awyr agored tra hefyd yn gwneud gwelliannau hygyrchedd yng Nghors Goch – eu gwarchodfa natur agosaf.

## Ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf

Trwy ein rhaglen 'Sefyll dros Natur Cymru', fe wnaethom groesawu pobl ifanc o bob cwr o'r wlad am gyfres o ddigwyddiadau a'u helpu i siarad yn uniongyrchol â ffigurau gwleidyddol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u 'gofynion' natur a chenedlaethau'r dyfodol – yn unol â'u maniffesto ieuenctid, a lansiwyd yn COP15. Fe wnaethom hefyd ddathlu ail flwyddyn 'Hyrwyddwyr Achub Cefnforoedd' a'i ffocws penodol ar gadwraethwyr morol ifanc, gyda chyfranogwyr blaenorol yn gweithredu fel mentoriaid i gefnogi recriwtiaid newydd. Gyda'i gilydd, fe wnaethom nhw dreulio'r flwyddyn yn monitro a phlannu safleoedd morwellt o gwmpas Penrhyn Llŷn  a chyflwyno digwyddiadau cyhoeddus i rannu a hyrwyddo eu gweithgareddau.

## Gwirfoddoli

Parhaodd elfen wirfoddoli ein gwaith i ffynnu trwy gydol 2023-24. Fe wnaeth 800 o bobl gyfrannu 28,546 awr amhrisiadwy o'u hamser – p'un a oeddech chi'n torri ffromlys chwarennog, gosod ffensys, chwilio'r glannau, neu helpu yn ein swyddfeydd a'n siopau, ni allwn ddiolch digon i chi!

## Lledaenu'r gair

Mae ein tîm cyfathrebu a marchnata yn parhau i gynhyrchu cynnwys rheolaidd o ansawdd uchel ac atyniadol i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein nodau strategol, gan gynnwys arwain gwelliant amlwg mewn darllediadau cyfryngau print a darlledu. Parhaodd sianeli digidol hefyd i chwarae rôl bwysig wrth gyrraedd ac ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd: tanysgrifwyr i'n e-gylchlythyrau wythnosol, *Wythnos Wyllt* ac *Wild Weekly* gynyddu i 17,000, tra bod ein sianeli cyfryngau cymdeithasol yn cael eu dilyn y sianeli gan tua 36,000 o bobl(i fyny 7% flwyddyn ar flwyddyn) ac fe wnaeth dros  500,000 o unigolion unigryw ymweld â'n gwefan.



NOD 3

# Atebion seiliedig ar natur


Mae colli byd natur yng Ngogledd Cymru yn cael effaith glir a mesuradwy ar fywyd gwyllt ac ar bobl.

Mae rhywogaethau dan fygythiad yn dioddef o golli cynefinoedd; mae lles meddyliol a chorfforol yn dirywio gyda llai o fannau gwyrdd o ansawdd uchel i bobl eu harchwilio a'u mwynhau; mae erydiad pridd yn cynyddu a ffrwythlondeb pridd yn lleihau; ac rydym yn gweld digwyddiadau tywydd eithafol yn amlach.

Diolch byth, gall fyd natur ddarparu ei hatebion ei hun i frwydro yn erbyn y peryglon hyn ac i'w gwrthdroi hefyd. Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn defnyddio ein dylanwad i annog ac arwain cymdeithas a phobl sy'n gwneud y penderfyniadau i edrych tuag at atebion sy'n seiliedig ar natur i fynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd hyn ac i'w gwrthdroi.



Adfer y morwellt ar Penrhyn Llŷn



MORWELLT © PAUL NAYLOR

**NATUR MEWN NIFEROEDD**

**785.61 $tCO_2e$ wedi'i allyrru** gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ar draws Cwmpas 1-3 -ffigur rydym ni'n gweithio'n rhagweithiol i'w leihau


Fe wnaeth **150,000 o bobl*** ymweld ag un o'n gwarchodfeydd natur–llefydd gwyllt sydd o fudd i fywyd gwyllt ac iechyd a lles dynol fel ei gilydd

*Yn 2022-23 – ffigur diweddaraf sydd ar gael

Casglwyd **1.5 miliwn o hadau morwellt** i gael eu plannu yn 2025

Mae **58.18 $tCO_2e$** yn cael ei dynnu allan o'r atmosffer gan ein Gwarchodfa Natur Cors y Sarnau





## Adfer i atafael

Mae ein holl waith i wella ac ehangu cynefinoedd bywyd gwyllt ar y tir ac ar y môr yn helpu i adfer ecosystemau, er mwyn i gynefinoedd naturiol allu atafaelu carbon, helpu i atal llifogydd, lleihau erydiad pridd, gwella ffrwythlondeb pridd, sefydlogi tymereddau byd-eang, darparu gwasanaethau peillio a gwella iechyd a lles pobl. Mae prosiectau adfer bywyd gwyllt sydd hefyd yn arbennig o werthfawr wrth atafael carbon yn cynnwys adfer mawndir yng Ngwarchodfa Natur Cors y Sarnau, ehangu cynefinoedd morwellt drwy ein gwaith Moroedd Byw, ac adfer coetir, yn fwyaf nodedig ym Mryn Ifan.

## Cael trefn ar ein tŷ ein hunain

Cynyddodd ein hallyriadau carbon a gofnodwyd yn sylweddol rhwng 2021-22 a 2022-23 (y dyddiadau diwethaf mae data ar gael ar ei gyfer ar hyn o bryd), yn enwedig yn ystod cwmpas 3, sy'n cynnwys y rhan fwyaf o ffynonellau anuniongyrchol o nwyon tŷ gwydr o'n gweithrediadau. Fodd bynnag, mae hyn oherwydd ein bod yn casglu data ar fwy o elfennau nag yr ydym ni wedi'i gasglu yn ystod blynyddoedd blaenorol, gyda'r cynnydd mawr oherwydd ein bod bellach yn cyfrif allyriadau o ganlyniad i nwyddau a gwasanaethau a brynwyd. Rydym ni'n parhau i wneud yr hyn a allwn ni i leihau ein hôl troed carbon, gan gynnwys prynu un car trydan yn y flwyddyn.

## Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae ein strategaeth newydd yn rhoi amrywiaeth o bobl wrth wraidd ein cenhadaeth, ac mae staff a gwirfoddolwyr yn deall ac yn gwerthfawrogi'r gwerth cynhenid o gynnwys trawstoriad ehangach o gymdeithas yn ein gwaith. Mae problemau cymdeithas yn gofyn am feddwl yn arloesol, a dim ond o ddod â phobl ynghyd â chefndiroedd, credoau, profiadau, syniadau a rhagolygon gwahanol y daw hyn.

I'r perwyl hwn, gan adeiladu ar fframwaith *Gwyllt Am Gynhwysiad* yr Ymddiriedolaeth Natur, fe wnaethom ddatblygu cynllun gweithredu tymor byr i'n helpu i sicrhau bod Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) yn ffordd o fod. Mae hyn yn cynnwys datblygu a mireinio ein polisi EDI newydd, a sefydlu Grŵp Datblygu EDI o staff ac Ymddiriedolwyr i wthio'r maes hwn o'n gwaith yn ei flaen. Rydym ni hefyd wedi parhau â'n partneriaethau gyda Asylum Link Glannau Mersi ac Anabledd Cymru (rydym yn gobeithio gwella hygyrchedd i'n gwarchodfeydd a swyddfeydd ar gyfer pobl ag anableddau gyda nhw) a thrwy gweithio gyda Chymdeithas Affrica Gogledd Cymru, fe wnaeth ein fforwm ieuenctid 'Môn Gwyrdd' groesawu ei aelodau Du cyntaf.

# Adolygiad ariannol

**Cafodd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru flwyddyn ariannol lwyddiannus arall, wrth ehangu ein gweithrediadau i ateb y galw newydd ar gyfer ein gwasanaethau.**

Er gwaethaf yr argyfwng costau byw, mae ein haelodaeth wedi parhau i gynyddu i 9,977 ar ddiwedd y flwyddyn, codiad o 6.4% o'r flwyddyn ganlynol: cynnydd net o fwy na 600 yn ystod y flwyddyn, sy'n cynnal ein safle fel un o'r Ymddiriedolaethau Natur sy'n perfformio orau yn y DU. Mae'r incwm a'r gefnogaeth a geir o ganlyniad yn gyfraniad sylweddol tuag at ein llwyddiant, ac rydym yn parhau i fod yn ddiolchgar i'n haelodau am eu haelioni.


Cyrhaeddodd trosiant am y flwyddyn £4.5 miliwn, cynnydd o £800,000 o'i gymharu â dwy flynedd yn ôl. Er ein bod ni i lawr £1.5 miliwn o'r flwyddyn flaenorol, mae hyn yn cael ei egluro gyda 2022-23 yn cynnwys cyfraniad sylweddol gan Aviva ac aeth tuag at brynu ac adnewyddu Bryn Ifan, a gafodd ei gwblhau ar ddechrau 2023-24.


Fe wnaeth NWWT Trading elwa o dymor agoriadol hirach ar gyfer ei siopau ac fe wnaeth oresgyn heriau blynyddoedd blaenorol i droi colled fach y llynedd i elw o £15,000. Cafodd Ecoleg Enfys flwyddyn fwy heriol, gan gynhyrchu trosiant o £490,000 a cholled fach am y flwyddyn, o'i gymharu ag elw o £45,000 y flwyddyn ddiwethaf. Mae cynllun gwneud newid wedi'i roi ar waith ac mae'r Ymddiriedolwyr yn parhau i fod yn ymrwymedig i adolygu perfformiad a masnachu rhagolygon y dyfodol yn rheolaidd yn erbyn y cynllun.

Ar y cyfan, blwyddyn brysur – y mae'r staff, gwirfoddolwyr a holl gefnogwyr Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru cefnogwyr yn haeddu llongyfarchiadau a diolch am bopeth sydd wedi'i gyflawni!



Alex Lord
*Trysorydd*




# Edrych ymlaen: 2024-25

**Mae'r tri nod rhyng-gysylltiedig o'n Strategaeth 2030, 'Dod â Natur yn Ôl', yn ein harwain ni i gyflawni ein rôl leol hanfodol wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Rydym ni'n rhoi byd natur mewn adferiad drwy helpu pobl i gymryd camau ystyrlon i'w gefnogi, gan gynnwys trwy fabwysiadu atebion sy'n seiliedig ar natur i heriau cymdeithas.**

## NOD 1

**Yn 2024-25, bydd ein gwaith i roi natur mewn adferiad yn cynnwys:**

- Cytuno ar strategaeth a chynllun busnes ar gyfer gwasanaeth cynghori rheoli tir newydd i ffermwyr a thirfeddianwyr eraill
- Parhau i ymdrechu i atal dirywiad y gwenoliaid duon, gan gynnwys ceisio deddfwriaeth i sicrhau bod briciau gwenoliaid duon yn cael eu gosod ym mhob adeilad newydd
- Diffinio ardaloedd daearyddol a chynefinoedd â blaenoriaeth i danategu ein huchelgeisiau '30 erbyn 30,' ar y tir ac ar y môr
- Datblygu pedwerydd prosiect Tirlun Byw newydd yn Nyffryn Conwy



## NOD 2

**Yn 2024-25, bydd ein hymdrechion i helpu pobl yng Ngogledd Cymru gymryd camau ystyrlon dros natur yn cynnwys:**


- Cwblhau a chyflwyno model enghreifftiol ar gyfer trefnu cymunedol, gan gyrraedd y tu hwnt i'r ardaloedd ffocws presennol yng Nghorwen a Gronant
- Ymgorffori ein polisi EDI newydd yn ein strategaeth farchnata a chyflawni prosiectau
- Datblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr amgylcheddol drwy gefnogi ein fforwm ieuenctid 'Môn Gwrydd' a, lle bo hynny'n ymarferol, sefydlu rhai eraill



## NOD 3

**Yn 2024-25, bydd ein gwaith i ymgorffori atebion sy'n seiliedig ar natur i ddatrys problemau cymdeithas yn cynnwys:**

- Cytuno ar ein strategaeth lleihau carbon sefydliadol ein hunain, gan ganolbwyntio ar reoli swyddfa a thrafnidiaeth
- Defnyddio gwaith mapio carbon glas ledled y DU i nodi blaenoriaethau lleol ac ymyriadau priodol
- Rhagweld effeithiau ecolegol newid yn yr hinsawdd ar draws ein gwarchodfeydd natur, Ardaloedd Tirwedd Byw a chynefinoedd daearol a morol â blaenoriaeth



MORLO LLWYD © THINESH THIRUGNANASAMPANTHAR

# Ein Partneriaid Naturiol

**Rydym yn falch o weithio dros fywyd gwyllt gyda busnesau ledled Gogledd Cymru.** Mae ein Partneriaid Naturiol yn ein helpu i weithio dros Ogledd Cymru wylltach – boed hynny drwy noddi ein prosiectau; creu cynefinoedd bywyd gwyllt gwerthfawr ar eu tir eu hunain; neu rannu eu harbenigedd am bwnc penodol. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n dangos y gall bioamrywiaeth olygu busnes!

Breedon Aggregates
Boltholes & Hideaways
Snowdon Mountain Railway Llanberis
hauck
Smurfit Kappa
Sugar & Loaf
Airbus
RAW Adventures
Sykes Holiday Cottages
Vine House Farm
enfinium
Anglesey Sea Zoo – Sw Môr Môn
Atlas Copco
Original Cottages
Kehoe Countryside Ltd
Ipsen
holidaycottages.co.uk
Ad Astra Caravan & Camping Park
Outdoor Alternative Rhoscolyn
riello ups
Coleg Cambria
Snowdonia Fire Protection
Innovation Group
Tarmac – A CRH Company
Albion Eco
Llyn Gwynant Campsite
Llandudno Golf Club Maesdu
Kendley Steel Specialists
Asynnod Moel Famau Donkeys
the PA Group of Companies
zest
Wales Cottage Holidays
Toyota Manufacturing UK
Green Wood Gelli Gyffwrdd

# Cofiwch ni yn eich Ewyllys

**Helpwch i ddiogelu bywyd gwyllt lleol a mannau gwyllt ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy adael rhodd yn eich Ewyllys.**

Unwaith y byddwch wedi darparu ar gyfer eich anwyliaid, mae cofio Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn eich Ewyllys yn helpu i gadw eich atgofion o'n bywyd gwyllt yn fyw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae 22% o'n hincwm gwirfoddol yn deillio o roddion mewn Ewyllysiau, sy'n ein galluogi i barhau i amddiffyn y bywyd gwyllt a'r llefydd gwyllt yng Ngogledd Cymru.

Mae pob rhodd ym mhob Ewyllys, waeth pa mor fawr neu fach, yn gwneud gwahaniaeth.

Hoffech chi gael Ewyllys yn rhad ac am ddim? Rydym wedi ymrwymo i nifer o bartneriaethau sy'n galluogi ein cefnogwyr i ysgrifennu eu Hewyllysiau yn rhad ac am ddim – heb unrhyw rwymedigaethau o gwbl. Ewch i **northwaleswildlifetrust.org.uk/legacy** neu cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth.



LLUN GAN OPPOFINDX5PRO AR UNSPLASH







© GARY ARMITAGE




© DILYS THOMPSON

# Diolch i'n cefnogwyr

Rydym yn hynod ddiolchgar i'n haelodau, staff, gwirfoddolwyr, rhoddwyr, y rhai sy'n gadael gwaddol, partneriaid, cyllidwyr a buddsoddwyr am eu hymrwymiad i gefnogi adferiad natur. Mae eich haelioni, eich cefnogaeth a'ch ymroddiad parhaus yn hanfodol i helpu i greu Gogledd Cymru fwy gwyllt er budd pobl a bywyd gwyllt fel ei gilydd.

*Diolch!*

Ymddiriedolaeth Natur
**Gogledd Cymru**
**North Wales**
Wildlife Trust